**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2024-25.**

**WGDB_24-25 14 : Ymateb gan: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) | Response from: Wales Council for Voluntary Action (WCVA)**

---

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

## YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein pwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

## ARGYMHELLION ALLWEDDOL

2. Gobeithiwn weld cyllideb:

   - **Sy'n cael ei harwain gan egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector**
   - **Sydd wedi ei hasesu yn erbyn cyd-destun ehangach pwysau ariannol parhaus, gan sicrhau dull gweithredu cydlynol nad yw'n effeithio'n anghymesur ar y sector gwirfoddol**
   - **Sy'n cael ei chyfathrebu'n dryloyw o ran y prosesau gwneud penderfyniadau a'r data cyllido sydd ar gael i'r cyhoedd mewn ffordd glir a chynhwysfawr**

## EFFAITH CYLLIDEB 2023-2024 AC EDRYCH TUA'R DYFODOL

**Yn eich barn chi, beth fu effaith Cyllideb 2023-2024 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig ag adfer ar ôl y pandemig?**


3. Yn wahanol i flynyddoedd ariannol 2020-22, ni dderbyniodd y sector gwirfoddol unrhyw gyllid eleni oedd yn benodol gysylltiedig ag adfer ar

ôl y pandemig. Canfu arolwg o dros 300 o dderbynwyr Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn disgwyl i recriwtio staff a chynhyrchu incwm masnachu yn ystod y 12 mis nesaf fod yn 'hynod heriol', gyda chynnydd mewn cyflogau a chostau staff yn cael eu disgrifio i fod yn 'hynod heriol'. Mae'r sector yn dal i ddelio â chanlyniadau pandemig Covid-19, yn ogystal â heriau ychwanegol yr argyfwng costau byw a chyflwyno araf Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) (Saesneg yn unig). Er ein bod yn cydnabod nad yw cyflenwi'r UKSPF wedi'i ddatganoli, mae effeithiau cymhleth yr holl ffactorau hyn wedi gadael llawer ar draws y sector mewn sefyllfa ariannol ansicr. Mae'r rhewi cyllid canol blwyddyn diweddar a'r cyhoeddiadau ynghylch toriadau yn y gyllideb gwasanaethau cyhoeddus wedi gwaethygu pryderon llawer o fudiadau gwirfoddol sy'n cyflenwi contractau cyhoeddus.


**A yw'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i fudiadau'r trydydd sector, sy'n wynebu mwy o alw am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?**

4. Yn ein barn ni, nid yw'r lefel bresennol o gefnogaeth yn ddigonol. Wrth i chwyddiant barhau i fod yn uchel ac wrth i'r argyfwng costau byw waethygu, rydym yn deall yr heriau sy'n wynebu cyllidwyr cyhoeddus a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, ac y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd i gydbwyso cyllidebau a lleihau effeithiau negyddol ar bobl ac ar y blaned. Mae mudiadau gwirfoddol ledled Cymru ar flaen y gad o ran cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac rydym yn gweld yr effeithiau hynny'n uniongyrchol.

5. Mae mudiadau gwirfoddol yn mynd i'r afael â phwysau ariannol a gweithredol acíwt. Dywedodd 80% o ymatebwyr i'n harolwg ym mis Hydref 2023 o mudiadau gwirfoddol sy'n darparu contractau gwasanaethau cyhoeddus na allent fodloni'r galw presennol am wasanaethau. Dywedodd 93% eu bod eisoes yn rhoi cymhorthdal i'r gwasanaethau statudol maent yn eu darparu ac mae 90% eisoes wedi cymryd camau eraill mewn ymateb i gyfyngiadau ariannol eu grant neu gontract.


Beth ydych chi wedi'i wneud i redeg eich gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol eich contractau a/neu grantiau?
43%
43%
37%
30%
27%
23%
20%
20%
10%
10%
Lleihau nifer y staff
Lleihau gwariant gweithredol arall
Lleihau nifer yr atgyfeiriadau rydyn ni'n eu derbyn
Lleihau oriau agor
Lleihau'r ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio
Defnyddio mwy o wirfoddolwyr
Newid y mathau o atgyfeiriadau rydyn ni'n eu derbyn
Cau gwasanaeth
Ehangu dyletswyddau gwirfoddolwyr
Nid ydyn ni wedi gorfod gwneud unrhyw beth

6. Dywedodd 60% o'r mudiadau a holwyd eu bod un ai'n ystyried, neu eu bod wedi penderfynu peidio â thendro am gontractau newydd neu ail-dendro, ar ôl i'w rhwymedigaethau presennol ddod i ben. Roedd 85% yn teimlo bod comisiynwyr sy'n tanbrisio contractau a grantiau yn debygol o roi pwysau ariannol ychwanegol ar y sector.




**Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?**

7. Mae gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, gan gynnwys drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu, yn gyfle allweddol i gyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 28: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli ar eu pennau eu hunain (Saesneg yn unig) yn cael ei fapio yn erbyn saith o'r wyth Nod Llesiant Cenedlaethol.

8. Mae mudiadau gwirfoddol yn arbenigo mewn sicrhau bod buddsoddiadau cymharol fach yn cael effaith gymdeithasol fawr. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r Partneriaethau Natur Lleol,

drwy raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, wedi creu dros 70 o fannau gwyrdd newydd ac wedi gwella bron i 200 o fannau gwyrdd sydd eisoes yn bodoli. Bu hefyd yn gweithio gyda chynghorau lleol i newid arferion torri gwair mewn 326 o safleoedd ac i blannu mwy o flodau gwyllt mewn 276 o safleoedd. Mae mudiadau gwirfoddol nid yn unig yn cyflawni er budd natur ac yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiadau hinsawdd a bioamrywiaeth fel cenedl, ond maent hefyd yn cynnwys, yn hysbysu ac yn ysbrydoli cymunedau i ofalu am eu mannau gwyrdd lleol, datblygu sgiliau newydd, treulio amser ym myd natur a chefnogi polisïau amgylcheddol (Saesneg yn unig) .

9. Mae'r sector gwirfoddol yn darparu rhwydwaith unigryw o gefnogaeth hygyrch, lleol ac arbenigol i bobl a chymunedau ledled Cymru. Rydym yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o atal ac ymyrryd yn gynnar drwy ddarparu gwasanaethau cymorth cofleidiol sy'n ategu darpariaeth gyhoeddus ac sy'n hyrwyddo llawer o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

10. Byddai dilyn ein tri argymhelliad allweddol ac, yn benodol, ymgorffori'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i ddangos ei bod yn defnyddio'r Pum Ffordd o Weithio.

11. Credwn y gall y sectorau cyhoeddus a phreifat ddysgu o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar werth y mae mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol yn ei weithredu wrth gynllunio strategol a gweithredu o ddydd i ddydd. P'un ai drwy fabwysiadu fframwaith llinell waelod triphlyg neu arferion cyd-gynhyrchu, mae'r glasbrintiau o sut i sbarduno newid cadarnhaol eisoes yn bodoli. Bydd partneriaeth agosach gyda'r sector gwirfoddol yn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn.

12. Mae Cynllun Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru yn enghraifft wych o'r ffyrdd y gall llywodraeth hwyluso cydweithio traws-sectoraidd a chynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cynllun hwn wedi ariannu prosiectau megis partneriaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) i ddatblygu Cynllun Gwirfoddoli safonol i weithwyr, y gellid ei efelychu ar draws pob sir yng Nghymru.

**Pa mor barod yn ariannol yw eich mudiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, sut bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i gyflawni amcanion a gynlluniwyd, a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod?**

13. Mae CGGC wedi mynd drwy newid sylweddol i baratoi'r mudiad ar gyfer diwedd cyllid yr UE a'r hinsawdd ariannol yr ydym i gyd yn gweithio drwyddi. Rydym wedi ailstrwythuro'r mudiad, gan golli gallu a chapasiti, ond rydym wedi gwneud y penderfyniadau anodd hyn fel ein bod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn parhau i allu cefnogi'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Rydym yn monitro ein cyllidebau'n ofalus ac effeithiau chwyddiant ar ein gallu i recriwtio, cadw a chyflawni, ond nid oes amheuaeth bod y rhagolygon yn dal i fod yn heriol i ni ein hunain ac i lawer o fudiadau yn y sector gwirfoddol.

14. Nododd Cefnogi Trydydd Sector Cymru gynnydd o 19% yn yr amser sy'n cael ei dreulio'n cefnogi'r sector rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022 – cyfanswm o 12,574 awr, gyda 43 munud ar gyfartaledd ar bob rhyngweithiad. Mae hyn wedi cyd-daro â chynnydd o 8% yn nifer y mudiadau sy'n cael eu cefnogi gan gyngor uniongyrchol. Mae'r ffigurau hyn yn arwydd clir o gymhlethdod cynyddol y materion y mae mudiadau gwirfoddol yn eu hwynebu. Mae'n dangos pwysigrwydd hanfodol cyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda seilwaith y sector gwirfoddol i helpu i gefnogi pobl a chymunedau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## TRYLOYWDER AC ATEBOLRWYDD

**Sut dylai Llywodraeth Cymru egluro ei phenderfyniadau cyllido, gan gynnwys sut mae ei gwariant yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion polisi?**

15. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr amserlen fer rhwng Datganiad yr Hydref a chyhoeddiad cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfyngiadau ar yr hyn y gall Trysorlys Cymru ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r gyllideb. Fodd bynnag, rydym yn credu y gellid rhannu mwy o'r wybodaeth sydd ar gael gyda'r cyhoedd. Fel arfer, rydym yn gweld ymatebion gweinidogion unigol yn amlinellu'r goblygiadau polisi yn eu portffolios yn ystod yr wythnosau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb. Dylid edrych

ar gyhoeddi'r ymatebion hynny ar yr un pryd â'r gyllideb ddrafft. Gallai'r ymatebion ddangos yn gliriach y meini prawf a'r blaenoriaethau y tu ôl i'r penderfyniadau. Byddai hyn, ochr yn ochr â chyhoeddi amserol, yn galluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol.

**Sut gellir gwella'r dogfennau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft?**

16. Dylai tablau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb fod â defnydd cyson o iaith a dulliau gweithredu dros y blynyddoedd er mwyn ei gwneud yn haws olrhain llinellau cyllideb y tu allan i'r Llywodraeth. Mae'r anghysonderau yn y modd y cyflwynir gwybodaeth yn ei gwneud yn anodd iawn i fudiadau arbenigol, heb sôn am grwpiau gwirfoddol llai neu'r cyhoedd, ddehongli'r data ac, felly, mae'n cyfyngu ar ein gallu i graffu arno.

17. Mae tystiolaeth ysgrifenedig gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant yn crynhoi ymatebion gweinidogion unigol yn ddefnyddiol, ond gellid ei darparu'n fwy amserol a'i chyflwyno mewn fformat mwy hygyrch. Er bod rhai gwelliannau bach wedi cael eu gwneud y llynedd, gan gynnwys darparu tudalen gynnwys, mae'r ddogfen yn dal yn hir iawn ac yn anodd ei defnyddio. Dylai'r ddogfen hon hefyd gysylltu ag Asesiadau Effaith Integredig (IIAs) a gynhelir ar wahân i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) sydd yn y gyllideb ddrafft.

18. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r grynodeb SIIA a ddarparwyd yn nogfennau'r gyllideb ddrafft, ond mae angen gwneud mwy o waith. Nid yw'r crynodeb yn ymdrin yn ddigonol â'r effeithiau – y rhai cadarnhaol a'r rhai negyddol. Mae'n ddefnyddiol cael rhywfaint o'r wybodaeth gyd-destunol a arweiniodd at benderfyniadau cyllido penodol, ond mae angen rhoi mwy o bwyslais ar yr effeithiau posibl a nodwyd drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau.

19. Mae'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn y crynodeb SIIA yn gipolwg defnyddiol ar y broses SIIA, ond nid ydynt yn cyflwyno darlun cytbwys. Mae'r astudiaethau achos yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr effeithiau cadarnhaol, gan ei gwneud yn anodd deall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud pan nodir effaith negyddol. Byddai arddangos y broses

o wneud penderfyniadau yn yr achosion hynny yn gwella tryloywder yn sylweddol.

**Sut mae tystiolaeth a data yn gyrru blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a dyraniadau cyllideb, ac a yw'r dull hwn yn glir?**

20. Mae'r dystiolaeth gyd-destunol a ddarparwyd drwy ddogfennau ategol y gyllideb ddrafft, gan gynnwys y crynodeb SIIA ac adroddiad y Prif Economegydd, yn rhoi trosolwg da o ystyriaethau ar y lefel strategol (dyraniad i'r Prif Grwpiau Gwariant). Nid yw'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniadau ar lefel portffolio (dyraniad o fewn Prif Grwpiau Gwariant) ar gael mor rhwydd. Gellir gwneud y dull o ddyrannu o fewn Prif Grwpiau Gwariant yn gliriach drwy gynnwys mwy o ddata a thystiolaeth yn adroddiadau'r gweinidogion unigol.

## NEWID YN YR HINSAWDD A'R ARGYFWNG BYD NATUR

**A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol? Ydych chi'n credu bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur? A oes unrhyw fylchau posibl o ran sgiliau y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn?**

21. Yn ddiweddar, chwaraeodd CGGC rôl gydgysylltiol yn y gwaith o ddatblygu cynllun busnes ar gyfer Gwasanaeth Natur Cymru (GNC). Mae cynlluniau tebyg wedi gweld llwyddiant cychwynnol mewn gwledydd eraill. Drwy'r gwaith hwn a'r gwaith rydym ni'n ei wneud gyda Phartneriaethau Natur Lleol ledled Cymru, rydym ni'n deall bod angen datrys bwlch sgiliau sylweddol i ddiogelu stiwardiaeth a gwella cyfalaf naturiol Cymru at y dyfodol.

22. Mae cyfalaf naturiol yn cyfrannu £6bn at economi flynyddol Cymru. Bydd datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i adfer a gwella'r amgylchedd naturiol yn hanfodol ar gyfer datblygu economi wyrddach Cymru yn gynaliadwy. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried buddsoddiad ystyrlon a hirdymor drwy fentrau sy'n galluogi ac yn cymell pobl ifanc, a'r rheini sy'n dymuno gweithio yn y sector amgylcheddol yn gyffredinol, i ddatblygu sgiliau. Bydd hyn yn helpu i greu economi werdd gynaliadwy yng Nghymru.

23. Mae Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru yn canolbwyntio ar gynhwysiant a budd i bawb. Mae CGGC yn cefnogi'r rhwydwaith presennol hwn fel cyfrwng tymor hir, nid yn unig i gyrraedd, ond hefyd i arwain y gwaith o weithredu dulliau sy'n cyfrannu at sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni dyfodol di-garbon.

24. Er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol a ddarperir gan Bartneriaethau Natur Lleol ledled Cymru, mae CGGC yn argymell bod Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Partneriaethau Natur Lleol. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws Cymru, gyda dull gweithredu sy'n cydnabod y gwahaniaeth mewn daearyddiaeth a demograffeg ar draws y siroedd. Byddai hefyd yn adeiladu ar rwydweithiau presennol ac yn cynyddu capasiti o ran darparu, ymgysylltu â'r gymuned a stiwardiaeth.

25. Yn gyffredinol, mae CGGC yn cydnabod bod y rhwydweithiau'n bodoli ar sail cyfraniad y sector gwirfoddol; ac y gellir eu datblygu ymhellach i gyflawni'r maes hwn o'r rhaglen ar gyfer y llywodraeth, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**A yw dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli mewn dyraniadau adnoddau? (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar)**

26. Arweiniodd ymarfer casglu data gan CGGC yn 2023, a oedd yn cynnwys 294 o geisiadau am ddata i gyrff cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol, at 227 o ymatebion gydag amrywiaeth eang o ran manylion, ansawdd, perthnasedd, fformat a chynnwys.

27. Nod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw canolbwyntio'n gryf ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Yn yr un modd, roedd y Gronfa Gofal Integredig yn rhaglen ataliol. Yn yr ymarfer casglu data uchod, darparwyd manylion gwariant mewn perthynas â dim ond dwy ardal (Caerdydd a'r Fro, a Gwent).

28. Er nad yw ‘atal’ yn gategori a ddefnyddir yn yr adroddiadau sydd ar gael i ni, gall fod yn deg dweud y bydd darparu cyllid drwy mudiadau gwirfoddol yn sicrhau ffocws ar atal ac ymyrraeth lefel isel, gan helpu i osgoi neu leihau’r galw ar wasanaethau statudol a chyfrannu at gydnerthedd a lles cymunedol yn gyffredinol. O ganlyniad, mae buddsoddi yng ngweithgarwch y sector gwirfoddol yn gwneud synnwyr fel dull ataliol.

29. Er enghraifft, mae Platfform 4YP, sy’n cael ei ddarparu gan Platfform, yn gweithio ar sail unigol a grŵp, gyda phobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed sy’n wynebu heriau gyda’u hiechyd meddwl a’u lles. Nid oes angen diagnosis i gael mynediad at y gwasanaeth. Mae pobl ifanc yn cael eu grymuso drwy rannu profiadau a straeon, a dod o hyd i ffyrdd o reoli eu lles a byw bywydau hapusach a mwy bodlon.

30. Hoffai CGGC weld gwell adroddiadau cenedlaethol gan gyrff statudol ar y berthynas gontractiol a chyllidol gyda mudiadau gwirfoddol. Byddai hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth a monitro o rôl ac effaith y sector mewn perthynas ag atal a lles.

**Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i fynd i’r afael â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau wedi’u cynllunio a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys? Ydych chi’n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i’r afael â’r mater hwn?**

31. Gall y sector gwirfoddol gefnogi pobl i ‘aros yn dda’, sydd â’r potensial i wella canlyniadau triniaethau a sicrhau y gellir rhyddhau pobl cyn gynted â phosibl. Gall buddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth cynnar sy’n cefnogi pobl i fyw’n annibynnol wrth aros am ofal wedi’i gynllunio atal a lleihau’r galw am ofal brys. Rydym yn ymwybodol o rai arferion da, ond nid oes digon o adnoddau ar gael ar gyfer y math hwn o gymorth ar hyn o bryd.

32. Mae un Bwrdd Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) wedi sicrhau cyllid elusennol i alluogi rhaglen o gymorth seicolegol gwell i gleifion mewn gwasanaethau canser. Ei nod yw osgoi oedi a chanslo oherwydd gorbryder gweithdrefnol a gwella hunanreolaeth cleifion o ran eu gofal iechyd eu hunain. Bydd elfen o hyn yn cynnwys gwirfoddolwyr yn galw i weld cleifion yn y dyddiau cyn endosgopi neu

lawdriniaeth ddiagnostig colonosgopi. Bydd yr effaith ar gyfraddau Peidio â Mynychu ac ar lesiant a phrofiad cleifion yn cael ei monitro. Mae'r dull hwn eisoes wedi denu diddordeb yn ymddiriedolaethau GIG Lloegr drwy ein rhwydwaith Helpforce.

33. Enghraifft arall o'r GIG yw Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), sy'n treialu cyfranogiad gwirfoddolwyr fel Ymatebwyr Lles Cymunedol (CWR). Ar ôl brysbennu yn y ganolfan alwadau 999, mae galwadau aciwtedd isel (categori 3) yn cael eu cyfeirio at wirfoddolwyr CWR lleol sydd wedi'u hyfforddi (sydd â llai o hyfforddiant ac offer llai helaeth nag Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol). Mae gweithdrefnau cefnogi ac uwchgyfeirio priodol ar waith. Mewn mannau eraill (Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gogledd Orllewin Lloegr), canfuwyd bod y dull hwn (Saesneg yn unig) wedi mwy na haneru amseroedd ymateb, gan osgoi'r angen am ambiwlans mewn 77.3% o achosion (290 allan o 375), a arweiniodd at arbed 469 awr o amser criwiau ambiwlans.